| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| CYFARFOD: | Y CYNGOR SIR |
| DYDDIAD: | 8 MAWRTH 2011 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | YR AIL ADRODDIAD CHWARTEROL GAN Y GRŴP LLYWIO ADFERIAD |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ADRODD AR GYNNYDD YN ERBYN Y TARGEDAU YN Y RHAGLEN ADFER |
| ADRODDIAD GAN: | CADEIRYDD Y GRŴP LLYWIO ADFERIAD |

## RHAGARWEINIAD

Ar 14 Medi 2010, cymeradwyodd y Cyngor ei Raglen Adfer (**Atodiad 1**) a sefydlodd Grŵp Llywio Adferiad (GLIA) i oruchwylio cynnydd ac adrodd yn ôl i bob cyfarfod cyffredin o'r Cyngor hyd nes y byddai Ymyrraeth y Gweinidog wedi dod i ben. Mae Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y GLIA ynghlwm (**Atodiad 2**).

## CYNNYDD

Mae'r GLIA wedi cyfarfod bedair gwaith. Cynhaliwyd y ddau gyfarfod cyntaf ar 28 Hydref 2010 a 23 Tachwedd 2010. Roedd bwriad i'r Grŵp adrodd i'r cyfarfod o'r Cyngor ym mis Rhagfyr ond gohiriwyd y mater, ynghyd ag eitemau eraill, hyd nes cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 8 Chwefror 2011.

Yn y cyfamser, roedd trydydd cyfarfod y GLIA wedi'i gynnal ar 20 Ionawr, 2011. Rhoddwyd gwybod am ganlyniad y cyfarfod hwnnw hefyd i'r Cyngor ar 8 Chwefror 2011 pan benderfynodd y Cyngor:-

- Derbyn casgliadau cyfredol y GlIA, sef bod cynnydd yn erbyn y Rhaglen Adfer yn foddhaol yn gyffredinol a
- Cymeradwyo'r broses a'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan y GLIA i barhau i fonitro datblygiadau i'r dyfodol yn erbyn y meysydd allweddol a nodwyd a'r Rhaglen Adfer ehangach.

Gan nad yw'r GLIA yn bwyllgor ffurfiol, nid yw ei Raglenni na'i Gofnodion yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn ac felly mae'r copïau mewn perthynas â'r cyfarfod ar 17 Chwefror 2011 ynghlwm (**Atodiad 3**). Am olwg fanylach ar y materion a drafodwyd gan y GlIA, gwahoddir aelodau'r Cyngor i ystyried y cofnodion ond gofynnir iddynt nodi, os gwelwch yn dda, mai ar ffurf ddrafft yn unig y maent ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, i bwrpas adrodd yn ôl i'r Cyngor heddiw, nid wyf ond yn bwriadu canolbwyntio ar y materion a ddisgrifir yn y paragraffau isod.

## YN GYFFREDINOL

Mae'r GLIA wedi nodi naw o faterion yr ydym yn credu bod raid gwneud cynnydd boddhaol yn eu cylch er mwyn sicrhau adferiad tymor hir a chynaliadwy. Mae'r materion allweddol hynny wedi'u rhestru yn (**Atodiad 4**).

I roi sylw i'r materion hyn, mae'r GLIA wedi cytuno y byddai'n gwahodd cyflwyniadau gan bob un o'r Aelodau Portffolio perthnasol i ddiweddaru'r GLIA ynghylch pob maes yn ei dro. Pwrpas y cyflwyniadau yw galluogi'r GLIA i asesu'r man cychwyn, y cynnydd hyd yma, y datblygiadau arfaethedig i'r dyfodol, yr amserlen a'r adnoddau gyda golwg ar sefydlu disgwyliadau / gofynion y GLIA ar gyfer adrodd a monitro yn y dyfodol. Yn y bôn, os gwneir cynnydd da, ni fydd ond raid monitro gyda "chyffyrddiad ysgafn"

Mae'r GLIA yn cydnabod yn ddiamwys nad oes ganddo unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau yn y meysydd hyn ond mae'n ceisio'r wybodaeth angenrheidiol fel bod modd iddo gyflawni ei gyfrifoldeb i ddarparu rôl sicrwydd ar gyfer y Cyngor.

## PRIF FATERION

Fel y nodais yn fy adroddiad cyntaf, gwahoddwyd pob un o'r Aelodau Portffolio perthnasol i wneud cyflwyniadau i ddiweddaru'r GLIA ar bob maes yn ei dro. Fel yr adroddwyd ar 20 Ionawr 2011, rhoddodd y GLIA syw i **Broses Gynhwysol ar gyfer y Gyllideb** ac **Ymgysylltiad Cymunedol**. Cyfeiriwch, os gwelwch yn dda, at Gofnodion y cyfarfod hwnnw am fanylion.

A 17 Chwefror 2011, rhoddwyd sylw i'r materion isod:-

- **Y Datganiad gan y Gweinidog ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol dyddiedig 17 Chwefror 2011**(**Atodiad 5**).

  Cafwyd cyflwyniad gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ynghylch datganiad y Gweinidog a gyhoeddwyd yn gynharach y dydd hwnnw.

- **Newidiadau Cyfansoddiadol Drafft – Rhannau 1 a 2**

  Cymeradwyodd y GLIA yr egwyddor y dylai'r Cyngor adolygu ei Gyfansoddiad ac roedd yn cytuno gyda'r ffordd yr oedd y ddogfen ddrafft newydd wedi'i chyflwyno a gwnaeth argymhellion eraill.

- **Cynnydd ar Faterion Cynllunio**

  Dau fater yr oedd y GLIA yn dymuno rhoi sylw brys iddynt oedd polisïau cynllunio a mantais gynllunio. Rhoddwyd sylw i'r trefniadau gweithio ar gyfer y Polisi Cynllunio ar y cyd rhwng Ynys Môn a Gwynedd ac i bolisïau cynllunio dros dro. Roedd ail ran yr adroddiad yn delio gyda mantais gynllunio ac yn cyfeirio at y prosiectau cydweithio trwy Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru ac yn dweud bod ymgynghorydd wedi'i benodi i gynnig cyngor.

Bwriedir cynnal cyfarfod pellach ar 17 Mawrth 2011. Yn y cyfarfod hwnnw rhoddir sylw i:-

- **Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Adnoddau Dynol – gan ganolbwyntio'n benodol ar ei gaffaeliaid TCGh**
- **Newidiadau Cyfansoddiadol Drafft – Rhannau 3 a 4**

Mae'r GLIA wedi bod yn derbyn diweddariadau ar y Rhaglen Adfer ehangach ym mhob cyfarfod ehangach a bydd hynny'n parhau. Bydd yn gwneud unrhyw benderfyniadau neu newidiadau mewn perthynas ag elfennau o'r rhaglen fel y cyfyd yr angen. Rhoddir pwyslais yn benodol ar unrhyw elfennau yr ymddengys eu bod yn llithro neu nad ydynt yn symud yn eu blaenau ar gyflymdra rhesymol, a gofynnir am ragor o wybodaeth am unrhyw feysydd penodol sy'n achosi pryder. Adroddir ar y rhain i'r Cyngor. Mae copi o statws cyfredol y Rhaglen Adfer ynghlwm (**Atodiad 6**).

**<u>ARGYMHELLION</u>**

Gan gydnabod bod materion ar hyn o bryd ynghylch agweddau gwleidyddol yr adferiad, dylid derbyn casgliadau cyfredol y GLIA , sef, bod cynnydd yn erbyn y Rhaglen Adfer yn gyffredinol yn parhau i fod yn foddhaol.

ATODIAD / ENCLOSURE 1

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | CYNGOR SIR |
| **DYDDIAD:** | 14 MEDI 2010 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | SEFYDLU GRŴP LLYWIO ADFERIAD O'R CYNGOR LLAWN |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | CREU CYFRWNG SY'N RHOI I GYNRYCHIOLWYR Y CYNGOR LLAWN:-<br>- Rôl drosolwg/monitro mewn perthynas â'r Rhaglen Adfer barhaus;<br>- Cyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r Bwrdd Adfer. |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR-GYFARWYDDWR DROS DRO |

## Rhagarweiniad

Yn y cyfarfod ar 14 Medi 2010 gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo ei Raglen Adfer.

Yn ogystal â nodi'r camau hynny a gwblhawyd yn llwyddiannus eisoes, bydd y Rhaglen Adfer yn amlinellu gweithgareddau ychwanegol y bydd raid i'r Cyngor eu cynnal er mwyn bodloni'r Gweinidog a'r Bwrdd Adfer bod y Cyngor yn addas, ac y bydd yn parhau i fod yn addas, i redeg ei fusnes ei hun heb ymyrraeth gan y Llywodraeth.

Rhaid monitro cynnydd gyda'r Rhaglen Adfer ac, er y bydd gan nifer o grwpiau/pwyllgorau cyfredol rôl i'w chwarae yn hyn o beth, cynigir y dylid sefydlu Grŵp Llywio Adferiad (y "Grŵp Adfer"). Byddai'r trefniadau cyffredinol fel sydd wedi ei nodi yn y diagram yn Atodiad A.

## Cylch Gorchwyl

Rôl benodol y Grŵp Adfer fydd monitro cynnydd cyffredinol y Cyngor yn erbyn y ffrydiau gwaith/prosiectau sy'n rhan o'r Rhaglen Adfer a rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod prosiectau yn cwrdd â'u hamcanion a'u hallbynnau; neu i ddwyn sylw'r Cyngor at unrhyw bryderon/gwendidau ac i wneud argymhellion / awgrymiadau ar gyfer camau unioni. Y prosiectau sy'n rhan o'r Rhaglen Adfer yw:-

Atod / Enc
9/12/2010

1.0 Datblygu Aelodau

2.0 Ymgysylltu

3.0 Cyngor Effeithiol

4.0 Perfformiad

5.0 Enw Da

6.0 Adnoddau Dynol

7.0 Cryfhau Llywodraethu

Wrth wneud ei waith, gall y Grŵp Adfer gyfeirio materion i gyrff eraill, fel y Pwyllgor Archwilio neu'r Pwyllgor Safonau, ar gyfer sylwadau neu adolygiad, fel y gwêl y Grŵp Adfer yn briodol.

Oherwydd nad yw'r adnoddau yn ddi-ben-draw, bydd gan y Grŵp Adfer hefyd rôl bwysig o ran gwneud argymhellion ar gyfer blaenoriaethau gweithgareddau o fewn y Rhaglen Adfer.

Bydd angen i'r Bwrdd Adfer allanol fod yn sicr bod y newidiadau a'r gwelliannau yn gynaliadwy cyn y byddant yn argymell i'r Gweinidog y dylai'r ymyrraeth ddod i ben. Mae'r Bwrdd Adfer wedi dweud *".....we remain concerned that some "backbench" members are not yet adequately involved in, and supportive of, the recovery. Some in particular appear unable to detach themselves from attitudes and ways of working that have become thoroughly discredited, and from issues and rivalries which should have been buried long ago".* Bydd yn rhan o gylch gorchwyl y Grŵp Adfer i ystyried a yw'r Rhaglen Adfer yn ddigon cadarn i sicrhau bod y mater hwn yn cael sylw, ac os nad yw, bydd yn nodi camau pellach y dylai'r Cyngor eu cymryd fel bod modd i'r holl aelodau symud ymlaen trwy gydweithrediad. Wrth roi sylw i'r mater hwn efallai y bydd angen i'r Grŵp Adfer weithio gyda'r Gweithgor Datblygu Aelodau a'r Pwyllgor Safonau.

Bydd Cadeirydd y Grŵp Adfer yn adrodd i bob cyfarfod blynyddol a chyfarfod cyffredin o'r Cyngor i roi sicrwydd i'r Cyngor (neu fel arall) bod y Rhaglen Adfer yn cael ei blaenoriaethu'n briodol a bod ganddi'r adnoddau angenrheidiol a'i bod yn llwyddo i gwrdd â'r amserlen a chyflawni'r allbynnau.

Yn ogystal ag adrodd yn rheolaidd i'r Cyngor, bydd y Grŵp Adfer hefyd yn trafod yn rheolaidd gyda'r Bwrdd Adfer allanol. I nodi disgwyliadau priodol a chilyddol yn y cyswllt hwn, mae'n debygol y bydd y Grŵp Adfer, unwaith y bydd wedi ei sefydlu, yn cyfarfod yn fuan gyda'r Bwrdd Adfer i gytuno ar ddisgwyliadau'r naill a'r llall ynghylch cyfathrebu ac adrodd.

Mae'r Cylch Gorchwyl a awgrymir ar gyfer y Grŵp Adfer ynghlwm yn Atodiad B.

**Cefnogaeth**

Awgrymir y bydd y Grŵp yn cael ei gynghori gan Swyddog Sicrwydd Prosiectau'r Cyngor a fydd, fel prif swyddogaeth, yn asesu cynnydd a pherfformiad Prosiectau'r Rhaglen Adfer ac yn adrodd i'r Grŵp Adfer. Bydd swyddogion perthnasol eraill hefyd yn cyfrannu at waith y Grŵp Adfer fel sy'n briodol i'r mater neu'r materion arbennig sydd dan sylw.

**Aelodaeth**

Bydd angen i aelodau benderfynu ar ba sail y bydd y Grŵp Adfer yn cael ei boblogi.

Bydd angen cymryd nifer o ffactorau i ystyriaeth o bosib:-


- Bydd raid i'r Aelodaeth gymryd i ystyriaeth gyfrifoldebau a dyletswyddau eraill ac ni ddylai unrhyw aelod fod yn rhan o'r Grŵp Adfer heb iddo/iddi fod yn fodlon bod ganddynt yr amser a'r ymrwymiad angenrheidiol.
- Gan fod yr adferiad yn fater i'r holl aelodau, ni ddylai'r Grŵp Adfer gael ei ddominyddu gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith/Arweinyddion Grwpiau.
- A ddylai fod "cap" ar nifer yr aelodau, ac os dylai, beth ddylai'r ffigwr hwnnw fod?
- Dymunoldeb cael aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ac aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith ar y Grŵp Llywio.
- Dymunoldeb cael aelodau profiadol ac aelodau newydd ar y Grŵp Adfer.

- Gallai Cadeirydd y Grŵp Adfer fod yn
    - Cadeirydd y Cyngor, neu
    - Yr Aelod Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol, neu
    - Aelod blaenllaw o'r meinciau cefn sy'n uchel ei barch/pharch ar draws y Siambr.
- Er yr argymhellir na ddylai fod cydbwysedd gwleidyddol ar y Grŵp Adfer, dylai'r aelodau ystyried a ddylid cynnwys cynrychiolaeth o'r holl grwpiau/pleidiau. Yn yr achos hwnnw, byddai pob grŵp/plaid yn dewis eu cynrychiolwyr eu hunain.
- A ddylai Arweinydd y Cyngor fod yn aelod?
- A ddylai Arweinydd yr Wrthblaid fod yn aelod?
- A ddylai'r Aelod Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol ac/neu Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod yn aelodau?
- A ddylid penodi aelod rhydd ac, os dylid, sut y bydd ef/hi yn cael ei ddewis/dewis?
- A ddylai'r Cyngor ddewis Cadeirydd y Grwp Adfer a chaniatáu i'r Cadeirydd ddewis ei dîm/thîm ei hun gyda neu heb gyfyngiadau?
- A ddylai Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio ac/neu'r Pwyllgor Safonau fod yn aelodau o'r Grŵp Adfer?

**Argymhellion**

1. Bod aelodau yn cadarnhau'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad B. Bydd raid nodi yn glir a chytuno ar unrhyw ddiwygiadau neu amrywiadau.
2. Bod aelodau yn penderfynu ar Gadeiryddiaeth ac aelodaeth y Grŵp Adfer.

**ATODIAD A**




* Nid yw'r rhain yn Bwyllgorau ffurfiol o'r Cyngor.

Atod / Enc
9/12/2010

# GRŴP LLYWIO ADFERIAD

## 1.0 PWRPAS

1.1 Rhoi sicrwydd i'r Cyngor Sir bod y Rhaglen Adfer - sydd wedi ei dylunio i sicrhau y bydd ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dod i ben - yn gadarn ac yn cael ei chyflawni.

## 2.0 AELODAETH

2.1 Penderfynir ar yr aelodaeth gan y Cyngor llawn.

2.2 Ni fydd cydbwysedd gwleidyddol ar y Grŵp. Ni fydd y Grŵp Adfer yn Bwyllgor nac yn Is-Bwyllgor ffurfiol o'r Cyngor ond bydd yn weithgor sy'n cwrdd yn breifat ac yn adrodd i'r Cyngor llawn.

## 3.0 HYD AC AMLDER

3.1 Bydd y Grŵp Adfer yn parhau i weithredu am holl gyfnod ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.2 Bydd yn cyfarfod o leiaf ddwywaith ym mhob chwarter a bydd cyfarfodydd o'r fath yn cael eu hamseru fel bod modd adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor.

## 4.0 CYLCH GORCHWYL MANWL

4.1 Ystyried y Rhaglen Adfer gyffredinol a monitro cynnydd a chyflawniadau.

4.2 Sicrhau cyfathrebu effeithiol gydag aelodau'r Cyngor yn gyffredinol ar gynnydd a sicrhau ymrwymiad a pherchenogaeth ehangach ymysg aelodau.

4.3 Adolygu adroddiadau gan y Bwrdd Adfer a chyrff eraill a diwygio'r Rhaglen Adfer fel y cyfyd yr angen.

4.4 Cynghori'r Cyngor am unrhyw gamau pellach y mae angen iddo eu hystyried er mwyn sicrhau bod ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dod i ben cyn gynted â phosib.

4.5 Adrodd i bob cyfarfod o'r Cyngor ar gynnydd yn erbyn y Rhaglen Adfer.

4.6 Gweithredu fel grŵp cyfeirio ar gyfer y Bwrdd Adfer allanol.

ATODIAD / ENCLOSURE 2

# GRŴP LLYWIO ADFERIAD

## 1.0 PWRPAS

1.1 Rhoi sicrwydd i'r Cyngor Sir bod y Rhaglen Adfer - sydd wedi ei dylunio i sicrhau y bydd ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dod i ben - yn gadarn ac yn cael ei chyflawni.

## 2.0 AELODAETH

2.1 Penderfynir ar yr aelodaeth gan y Cyngor llawn.

2.2 Ni fydd cydbwysedd gwleidyddol ar y Grŵp. Ni fydd y Grŵp Adfer yn Bwyllgor nac yn Is-Bwyllgor ffurfiol o'r Cyngor ond bydd yn weithgor sy'n cwrdd yn breifat ac yn adrodd i'r Cyngor llawn.

## 3.0 HYD AC AMLDER

3.1 Bydd y Grŵp Adfer yn parhau i weithredu am holl gyfnod ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.2 Bydd yn cyfarfod o leiaf ddwywaith ym mhob chwarter a bydd cyfarfodydd o'r fath yn cael eu hamseru fel bod modd adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor.

## 4.0 CYLCH GORCHWYL MANWL

4.1 Ystyried y Rhaglen Adfer gyffredinol a monitro cynnydd a chyflawniadau.

4.2 Sicrhau cyfathrebu effeithiol gydag aelodau'r Cyngor yn gyffredinol ar gynnydd a sicrhau ymrwymiad a pherchenogaeth ehangach ymysg aelodau.

4.3 Adolygu adroddiadau gan y Bwrdd Adfer a chyrff eraill a diwygio'r Rhaglen Adfer fel y cyfyd yr angen.

4.4 Cynghori'r Cyngor am unrhyw gamau pellach y mae angen iddo eu hystyried er mwyn sicrhau bod ymyrraeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dod i ben cyn gynted â phosib.

4.5 Adrodd i bob cyfarfod o'r Cyngor ar gynnydd yn erbyn y Rhaglen Adfer.

4.6 Gweithredu fel grŵp cyfeirio ar gyfer y Bwrdd Adfer allanol.

# CYFARFOD CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2010 (2:00pm)

### 8. SEFYDLU GRWP LLYWIO ADFER O'R CYNGOR LLAWN

Adroddwyd gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro - Yn ei gyfarfod heddiw, fe fyddai gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'i Raglen Adfer.

Yn ogystal â nodi'r camau oedd eisoes wedi'u cwblhau'n llwyddiannus, byddai'r Rhaglen Adfer yn gosod allan weithgareddau pellach y byddai'n rhaid i'r Cyngor eu gwneud er mwyn bodloni'r Gweinidog a'r Bwrdd Adfer bod y Cyngor yn gallu, ac y byddai'n parhau i allu rhedeg ei weithgareddau ei hun heb yr angen am ymyrryd.

Rhaid monitro cynnydd y Rhaglen Adfer a thra roedd yna nifer o bwyllgorau / grwpiau presennol fyddai'n chwarae rôl yn hyn, y cynnig oedd y dylid sefydlu Grwp Llywio Adfer. Byddai'r trefniadau cyffredinol fel y rhai oedd wedi'u darlunio yn Atodiad A yr adroddiad i'r Cyngor.

Roedd y Cylch Gorchwyl oedd yn cael ei awgrymu ar gyfer y Grwp Adfer ynghlwm yn Atodiad B o'r adroddiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at y gefnogaeth arfaethedig gan swyddog fyddai'n asesu cynnydd a pherfformiad Prosiectau'r Rhaglen Adfer ac yn adrodd yn ôl i'r Grwp Adfer.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at nifer o ffactorau y byddai'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth yng nghyswllt aelodaeth y Grwp Adfer.

Collwyd cynnig gan y Cynghorydd Bryan Owen y dylai aelodau'r Grwp Adfer i gyd gael eu dewis o blith rhai ar feinciau cefn yr Awdurdod.

Cyn y bleidlais, nododd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro mai mater i bob grwp gwleidyddol oedd penderfynu ar aelod i'w roi ymlaen gan roi sylw i ba mor ddymunol oedd cael aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a rhai nad oeddent ar y Pwyllgor Gwaith yn aelodau o'r Grwp Llywio. Fodd bynnag, roedd yn cytuno gyda'r farn gyffredinol roddwyd gerbron heddiw, sef oni fyddai yna nifer teg o aelodau o'r meinciau cefn, yna ni fyddai'r Grwp yn cyflawni ei amcanion mewn gwirionedd. Trwy gynnal trafodaethau trwy'r sianelau gwleidyddol arferol yng nghyswllt yr enwebiadau, fe allai'r Cyngor geisio cydymffurfio gydag ysbryd yr hyn yr oedd y Cynghroydd Owen yn ceisio'i gyflawni ond hefyd wneud yn siwr bod yna rai aelodau oddi ar y Pwyllgor Gwaith yn ogystal.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda Chylch Gorchwyl y Grwp Llywio Adfer fel oedd i'w weld yn Atodiad B i'r adroddiad.**

- **Mai aelodaeth y Grwp Llywio Adfer fydd un aelod o bob Grwp Gwleidyddol ynghyd ag un aelod digyswllt a bydd cyfarfodydd y Grwp yn cael eu cadeirio gan Is-Gadeirydd y Cyngor.**

## AELODAETH GLLA / MEMBERSHIP OF THE RSG

Y Cynghorydd / Councillor G O Jones (Cadeirydd / Chair)
Y Cynghorydd / Councillor K P Hughes
Y Cynghorydd / Councillor T Lloyd Hughes
Y Cynghorydd / Councillor H Eifion Jones
Y Cynghorydd / Councillor Tom Jones
Y Cynghorydd / Councillor J Arwel Roberts
Y Cynghorydd / Councillor G W Roberts, OBE
Y Cynghorydd / Councillor P S Rogers

ATODIAD / ENCLOSURE 3

# RHAGLEN

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

   Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem i'w thrafod yn y cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Y Cynghorydd

3. **COFNODION**

   Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion cyfarfod diwethaf y Grwp Llywio Adferiad gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2010.
   **(PAPUR 'A')**

4. **NEWIDIADAU DRAFFT I'R CYFANSODDIAD - RHANNAU 1 a 2**

   Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro.
   **(PAPUR 'B')**

5. **PAPUR BRIFFIO - CYNNYDD AR FATERION CYNLLUNIO**

   Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)
   **(PAPUR 'C')**

6. **RHEOLI RHAGLENNI**

   Cyflwyno adroddiad llafar gan yr Ymgynghorydd Rheoli Rhaglen.

DRAFFT

**NODIADAU O GYFARFOD Y GRŴP LLYWIO ADFERIAD A GYNHALIWYD AR 17 CHWEFROR 2011**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd G. O. Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr K. P. Hughes, Tom Jones, J. Arwel Roberts, P. S. Rogers. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cynllunio a'r Amgylchedd)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM)<br>Swyddog Prosiect (AJ)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Bob Parry OBE (Aelod Portffolio), H. E. Jones, J. Arwel Roberts, Mr. Ian Bottrill (Cyfarwyddwr Datblygu Cenedlaethol, ContinYou, Cymru). |

---

Rhoddodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro gopi i aelodau'r Grŵp o ddatganiad ysgrifenedig gan Carl Sargeant, y Gweinidog ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac yr oedd newydd ei dderbyn yn yr awr ddiwethaf.

Roedd y Gweinidog yn dweud yn ei lythyr ei fod wedi colli pob ffydd a hyder yr oedd ganddo yn Aelodau Etholedig y Cyngor wrth iddynt barhau i geisio cael y swyddi gorau iddynt eu hunain ac nad oedd y Cyngor yn sefydlog a bod aelodau yn torri cytundebau yr oeddent wedi eu gwneud. Addewidion gwag oedd addewidion yr aelodau ac nid oedd hyn yn gefndir derbyniol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Roedd â'i fryd yn awr ar ymyrraeth ddwysach ond nid oedd wedi penderfynu hyd yma beth fyddai ffurf yr ymyrraeth honno. I'w gynorthwyo yn hyn o beth, cynhelid Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol newydd ar y Cyngor a byddai'r adolygiad hwnnw yn un byr a chyflym. Byddai'r archwiliad yn digwydd yn yr wythnos nesaf yn bennaf a dyna fyddai'r darn olaf o wybodaeth y byddai'r gweinidog ei hangen cyn penderfynu ar ffurf derfynol ei ymyrraeth.

Roedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn credu bod y Gweinidog yn edrych ar amrediad o opsiynau – o'r opsiwn dim lwfans lle byddai'r Gweinidog yn tynnu pob grym oddi ar yr aelodau etholedig - i rywbeth a oedd wedi ei dargedu'n fwy penodol. Nid oedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn credu o gwbl bod y Gweinidog wedi ysgrifennu'r datganiad hwn, a oedd yn eithaf di-flewyn ar dafod, heb fod â hynny yn ei feddwl.

Nid oedd yr aelodau hynny a oedd wedi cael eu harwain i gredu gan rai aelodau bod y cytundeb y daethpwyd iddo yn achubiaeth, wedi cael derbyniad da oddi ar yr Ynys. Roedd y Gweinidog yn ffromi ar bobl yn torri cytundebau a phobl sy'n ceisio sicrhau'r swyddi gorau ar gyfer eu hunain yn wastad. Dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ei fod wedi egluro, mewn meysydd fel addysg, ei bod yn anodd rhesymoli ysgolion os nad oedd yr Adran yn gwybod pwy oedd eu Haelod Portffolio o un diwrnod i'r llall.

Roedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn ofni, pe bai Comisiynwyr yn cael eu penodi, y byddai'r rhagolygon o gydweithio gyda Gwynedd yn diflannu ac y byddai gorfodaeth ymhen amser i gyfuno gyda Gwynedd. Roedd yn meddwl y byddai hynny'n biti garw ond roedd yn credu mai dyna oedd y Cyngor hwn yn ei wynebu bellach, mae'n debyg. Roedd yn anodd gweld sut y gallai'r Gweinidog ysgrifennu mewn termau mor gadarn â hyn heb feddwl am wneud rhywbeth dramatig. Ni allai'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro gredu na fyddai'r ymyrraeth yn y Cyngor hwn yn dwysau'n sylweddol.

Y broblem i'r grŵp hwn oedd nad oed modd iddo wneud dim amdano yn y tymor byr ond roedd cyfrifoldeb arno i geisio cefnogi adferiad y Cyngor. Roedd llythyr y Gweinidog yn eithaf clir o ran gwahaniaethu rhwng y gwasanaethau a ddarperir ynghyd â pherfformiad a chyfraniad swyddogion a'i ganfyddiad ef o'r hyn a oedd yn digwydd yn y maes gwleidyddol.

Gallai rhywun ddeall pe bai'r pethau hyn yn digwydd oherwydd brwydr ynghylch maint a natur y toriadau, ynghylch cyflymder y newid yn y system addysg neu pe bai yna wahaniaeth barn athronyddol sylfaenol ynghylch darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd yn ymwneud â chyfrifoldeb unigol ac ymddygiad personol unigolion. Nid oedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn gweld sut y gallai'r grŵp hwn adrodd yn ôl i'r Cyngor ar 8 Mawrth a chyfeirio at y cynnydd sy'n cael ei wneud heb gyfeirio at gynnwys llythyr y Gweinidog. Roedd hyn yn rhywbeth yr oedd angen i Aelodau'r Grŵp hwn fyfyrio yn ei gylch dros yr ychydig ddyddiau nesaf.

Nid oedd sail gadarn i'r system wobrwyo yn y Cyngor ac roedd yn seiliedig ar nawdd personol, gwobrau, naill ai trwy rym neu dâl. Hyd nes y torrid y system honno a hyd nes y byddai mwyafrif llethol yr Aelodau yn condemnio'r math hwnnw o wleidyddiaeth, yna roedd y Comisiynwyr yn mynd i ddod i mewn a byddent yma am amser hir iawn. Roedd yn biti garw na allai pob Aelod o'r Grŵp hwn fod yn bresennol heddiw.

Roedd gan y Grŵp hwn broblem ac nid oedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn glir ynghylch sut y dylid delio yn awr gyda'r mater yn y Cyngor ar 8 Mawrth. Ni allai Aelodau barhau i dwyllo eu hunain bod yr hyn yr oedd y Grŵp hwn yn ei wneud ar hyn o bryd yn gweithio, oherwydd mae'n amlwg nad ydoedd.

Fodd bynnag, roedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn meddwl bod cyfle yma. Y ffordd yr oedd llywodraeth leol yn mynd, un ai roedd raid cydweithio gyda'ch cymdogion neu byddech yn cael eich gorfodi i gyfuno yn y man. Roedd Ynys Môn angen sefydliad cryf, democrataidd ac uchel ei barch a oedd yn sefyll dros yr Ynys ac yn sicrhau'r buddsoddiad mwyaf yn Wylfa er budd yr Ynys ac nid er budd datblygwyr. Pe bai'r Comisiynwyr yn dod i mewn, hwn fyddai cychwyn y llwybr llithrig tuag at gyfuno gorfodol gyda Gwynedd. Pe bai'r Cyngor hwn yn gallu ennill bodd y Gweinidog fel nad oedd ond yn tynhau ei bwerau ymyrryd trwy ddal lwfansau Aelodau yn ôl neu wahardd Aelodau rhag penodi staff ac ati, ac atgyfodi'r astudiaeth gwmpasu gyda Gwynedd, yna byddai hynny er budd gorau Ynys Môn. Fodd bynnag, yn ei farn ef ni fyddai'r Gweinidog yn gwneud hynny pan nad oedd yr hyn sy'n digwydd yn cael ei herio o gwbl gan y mwyafrif o'r Aelodau. Roedd angen i Aelodau sefyll a herio trwy ddweud mai dyma oedd y ffordd anghywir o wneud gwleidyddiaeth ac nad oedd yn dderbyniol mwyach.

Roedd rhai Aelodau wedi rhoi eu gair i'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ac yna wedi torri eu gair ac roedd o yn ei chael hi'n anodd stumogi hynny. Os oedd yr Aelodau hynny yn fodlon gwneud hynny iddo ef, y Bwrdd Adfer a'r Gweinidog, beth oeddynt yn fodlon ei wneud heb rywun yn goruchwylio'r sefyllfa?

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro yn credu bod raid i'r Grŵp hwn roi sylw yn y Cyngor i'r hyn yr oedd y Gweinidog wedi'i ddweud, ac Aelodau ddylai ddrafftio hyn ac nid Swyddogion. Roedd angen i Aelodau Etholedig y Grŵp hwn gyfarfod a drafftio rhywbeth mewn ymateb i fynd law yn llaw â'r darn mwy technegol o'r adroddiad i'r Cyngor. Byddai'n rhaid gwneud hynny erbyn hanner dydd ar ddydd Gwener, 25 Chwefror i gwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn papurau Pwyllgor.

Roedd y Cadeirydd o'r farn bod raid i'r Grŵp hwn gyflwyno ei sylwadau i'r Cyngor ar 8 Mawrth. Roedd yr Aelodau a oedd yn bresennol o'r un farn.

Aeth y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ymlaen i ddweud bod Aelodau y dywedwyd wrthynt bod hyn oll wedi'i glirio yng Nghaerdydd dan gamargraff. Roedd pob darn o gyngor yr oedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro wedi'i roi wedi'i anwybyddu'n llwyr. Os oedd Aelodau dan y camargraff bod bargen wedi'i tharo gallant weithredu mewn un ffordd ond os oeddynt wedi cael fersiwn wahanol o ddigwyddiadau gallant weithredu mewn ffordd wahanol. Roedd cyllideb gweddol dda wrthi'n cael ei chwblhau'n derfynol. Fodd bynnag, dechreuodd pethau dorri i lawr pan ddywedodd rhai Aelodau bod y gyllideb yn ofnadwy ac nad oedd unrhyw arwydd o gyllideb. Roedd gennym yn awr ddogfen yn dweud eu bod yn cefnogi'r gyllideb ond y rheswm gwreiddiol dros geisio disodli'r Arweinydd cyfredol oedd oherwydd nad oedd unrhyw gyllideb.

## 1. <u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>

Dim.

2. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

3. **COFNODION**

4. **NEWIDIADAU CYFANSODDIADOL DRAFFT**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro ar y newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor.

Roedd Atodiad 'A' yn cynnwys drafft diwygiedig o rannau 1 a 2 y Cyfansoddiad gyda diwygiadau ychwanegol i'w cyflwyno i gyfarfodydd dilynol. Y bwriad oedd ceisio cyflwyno dogfen symlach yn rhannol er budd Aelodau a Swyddogion, ond yn bennaf er budd y cyhoedd er mwyn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o rolau a swyddogaethau'r Cyngor.

Roedd Atodiad 'B' yn grynodeb o'r newidiadau a gynigiwyd ac fel yr adlewyrchwyd nhw yn Atodiad 'A'. Roedd y rhan fwyaf o'r newidiadau a awgrymwyd yn ymwneud â fformat yn hytrach na sylwedd neu roeddent yn rhai heb arwyddocâd mawr. Roedd y newidiadau sylfaenol a gynigiwyd yn rhannau 1 a 2 ynghylch cyflwyno deisebau i'r Cyngor gan aelodau o'r cyhoedd a'r awgrym y dylid trefnu sesiwn Hawl i Holi hefyd wedi eu rhestru ym mharagraff 2.3.1(a) Atodiad A yr adroddiad.

Yn ogystal â'r adroddiad i'r Grwp Llywio Adferiad heddiw dygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro sylw at yr angen i gryfhau'r Cyfansoddiad trwy sicrhau bod rhaid cael aelod ychwanegol o Gyngor Tref/Cymuned i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau rhag ofn y derbynnir cwyn yn erbyn unrhyw Gynghorydd o'r un Cyngor Tref/Cymuned a'r cynrychiolydd ar y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo'r egwyddor y dylai'r Cyngor adolygu a diweddaru ei Gyfansoddiad;**
- **Cytuno gyda sut y mae'r ddogfen ddrafft newydd wedi ei chyflwyno o ran gosodiad, arddull, iaith ac ati.**
- **Cytuno y bydd gan aelodau o'r cyhoedd hawl i gyflwyno deisebau i gyfarfodydd y Cyngor ac i siarad o blaid eu deiseb a, chydag amodau,**

**bod ganddynt hawl hefyd i annerch y Cyngor mewn sesiwn o fath 'Hawl i Holi';**

- **Rhoi awdurdod i swyddogion symud ymlaen i ymgynghori gyda holl Aelodau'r Cyngor.**

- **Cymeradwyo'r awgrym a wnaed gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro ac argymell i'r Pwyllgor Gwaith ac i'r Cyngor Sir y dylid cynyddu'r nifer o gynrychiolwyr Cynghorau Tref/ Cymuned ar y Pwyllgor Safonau o 1 i 2.**

## 5. PAPUR BRIFFIO: CYNNYDD GYDA MATERION CYNLLUNIO

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) – bod y Gwasanaeth Cynllunio, mewn ymateb i'r Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol, wedi llunio Cynllun Gwella llynedd mewn ymgynghoriad gyda'r cydranddeiliaid. Roedd y cynllun yn cynnwys cyfeiriad at ddau fater o bwys brys i'r Grwp Llywio, sef polisïau cynllunio a mantais gynllunio.

Roedd rhan gyntaf yr adroddiad yn cynnwys manylion am drefniadau cydweithio o ran y polisi cynllunio ar y cyd rhwng Môn a Gwynedd ac roedd yn cyfeirio hefyd at Bolisïau Cynllunio Dros Dro yr oedd rhaid eu cael i lenwi bwlch rhwng y Cynllun Datblygu a oedd bellach wedi dyddio ynghyd â'r CDLl a gafodd ei atal. Rhaid cael y polisïau dros dro hyn hyd nes y bydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi ei fabwysiadu yn 2016.

Roedd ail ran yr adroddiad yn delio gyda Mantais Gynllunio, sef mater yr oedd y Cyngor hyd yma wedi methu â gwneud cynnydd sylweddol a chydlynol arno. Cymhlethwyd y sefyllfa ymhellach gan bolisi fframwaith yr Awdurdod hwn a oedd wedi dyddio. Roedd yr holl Awdurdodau Cynllunio eraill yng Ngogledd Cymru mewn sefyllfa debyg ac o'r herwydd gwnaed ymdrech i sefydlu prosiect cydweithio trwy Grwp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru. Fodd bynnag, nid oedd y Grwp hwn wedi gwneud digon o gynnydd ac ym mis Rhagfyr cytunwyd i benodi Ymgynghorwyr i roi cyngor (cyn pen cyfnod o 16 wythnos) ynghylch sut i fwrw ymlaen gyda'r mater hwn a phenodi swyddog rhanbarthol i gefnogi Cynghorau i wella taliadau mantais gynllunio. Ar ddiwedd yr astudiaeth disgwylir y byddai'r Cynghorau sy'n dymuno cymryd rhan yn cytuno ar Gynllun Gweithredu ac yn gweithredu'r argymhellion.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa.**

## 6. RHEOLI RHAGLEN

Dosbarthodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes daflenni crynhoi a soniodd am y broses a sefydlwyd i fonitro prosiectau'r Cyngor.

Lle 'roedd oedi neu faterion a oedd angen sylw, byddid yn dwyn sylw at y rhain trwy system goleuadau traffig a byddai argymhellion yn cael eu dwyn gerbron y Grwp hwn i'w cymeradwyo. Y rheini a oedd wedi eu marcio'n goch oedd y rhai y dylai'r Grwp hwn ganolbwyntio arnynt.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r sefyllfa a chymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd gan gynnwys yr eglurhad a roddwyd ynghylch oedi a bod adroddiad gwaith pellach yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Grwp Llywio hwn.**

- **Gofyn i'r Swyddfa Rhaglen flaenoriaethu'r is-set dan y Rhaglen Adfer o'r enw 'Gwneud y Cyngor yn Fwy Effeithlon'.**

7. CYFARFOD NESAF

**Cynhelir y cyfarfod nesaf 17 Mawrth 2011 a PHENDERFYNWYD rhoi sylw yn y cyfarfod hwnnw i adolygiad o'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol, gan ganolbwyntio'n benodol ar TGCh fel rhan o'r 9 maes allweddol a nodwyd gan y Grwp Llywio ac estyn gwahoddiad i'r Cynghorydd C. Ll. Everett, yr Aelod Portffolio i fynychu.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.05pm

**Y CYNGHORYDD G. O. JONES**
**(CADEIRYDD)**

ATODIAD / ENCLOSURE 4

**DRAFFT**

**RHAGLEN WAITH Y GRWP LLYWIO ADFERIAD**

**RHAGFYR 2010 – MAI 2011**

| | | GWYBODAETH / CYNNWYS ? | FFORMAT? | YN ARWAIN | PA BRYD A PHA MOR AML? |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | **Ymgysylltiad cymunedol** | | | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaeth - Polisi | |
| 2. | **Adnewyddiad Democrataidd** | | | Alan Williams<br>Rheolwr Cefnogaeth Ganolog | |
| 3. | AD | | | Carys Edwards<br>Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol | |
| 4. | **Proses Gyllideb Gynhwysol** | | | David Elis-Williams<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyllid | |
| 5. | **CDLl/Polisïau Cynllunio Dros Dro** | | | Jim Woodcock<br>Pennaeth Gwasanaeth - Cynllunio | |
| 6. | **Atborth gan Aelodau ynghylch effeithiolrwydd hyfforddi a datblygu** | | | John Penri Williams<br>(Cadeirydd y Gweithgor Datblygu Aelodau) a<br>Miriam Williams<br>Uchel Swyddog Datblygu | |
| 7. | **Mantais Gynllunio** | | | Jim Woodcock<br>Pennaeth Gwasanaeth - Cynllunio | |
| 8. | **Protocol ar gyfer Rheoli Swyddogion sy'n tanberfformio a rôl Aelodau** | | | David Bowles<br>Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro | |
| 9. | **Ymddygiad sylfaenol Aelodau** | | | David Bowles<br>Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro | |

**ATODIAD / ENCLOSURE 5**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Cyngor Sir Ynys Môn**

**Dyddiad:** **17 Chwefror 2011**

**Gan:** **Carl Sargeant, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

Fe hoffwn roi diweddariad i'r Aelodau ar y datblygiadau diweddaraf o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, a sut yr wyf yn bwriadu ymateb iddynt.

Bydd y Cynulliad yn cofio i Archwilydd Cyffredinol Cymru ganfod gwendidau difrifol iawn o fewn y Cyngor ym mis Gorffennaf 2009: ymddygiad gwael ymysg yr aelodau, cydberthnasau gwan rhwng aelodau a swyddogion, cynllunio strategol annigonol a dim llawer o ymgysylltu â'r cyhoedd. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol ein bod yn ymyrryd er mwyn helpu i sicrhau adferiad, a fis yn ddiweddarach fe gyfarwyddodd Brian Gibbons y Cyngor i ymdrin â'r holl broblemau y tynnodd yr Archwiliwr Cyffredinol sylw atynt o fewn 18 mis. Hefyd, fe dynnodd rai swyddogaethau oddi ar y Cyngor, ac fe benododd Reolwr Gyfarwyddwr dros dro a Bwrdd Adfer er mwyn monitro datblygiad y Cyngor.

Ers hynny, mae'n deg dweud bod y Cyngor wedi symud yn ei flaen mewn rhai meysydd. Mae wedi diwygio ei system graffu er mwyn sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn cael mwy o ddylanwad ar fusnes y Cyngor. Mae wedi rhoi terfyn ar yr arfer o benodi cynghorwyr i gadeirio pwyllgorau ac ar gyrff allanol ar sail ymlyniad gwleidyddol a ffafriaeth.

Nid yw rhai o'r problemau mwyaf difrifol wedi diflannu, fodd bynnag. Mae ymddygiad nifer o'r cynghorwyr yn awgrymu mai eu prif nod yw gweithredu er eu lles hwy eu hunain ac er mwyn eu grwpiau, yn hytrach na gweithio er budd yr ynys gyfan. Mae creu a thorri cytundebau gwleidyddol yn parhau i fod yn un

o'r nodweddion sy'n hydreiddio diwylliant gwleidyddol y Cyngor, gan arwain at ansefydlogrwydd ac ansicrwydd nad yw'n llesol i neb. Fis Mehefin diwethaf, er enghraifft, fe adawodd yr Arweinydd ei grŵp, gan ei fod o'r farn fod y grŵp hwnnw'n ei danseilio ef a'r adferiad. Fe ffurfiodd gynghrair newydd, ond ni lwyddodd honno i dderbyn cefnogaeth y mwyafrif. Ers y Nadolig, gwelwyd nifer o ymdrechion i ddisodli'r gynghrair honno, a gosod un o blith nifer o wahanol gyfuniadau yn ei lle. Byddai pob un o'r rhain yn golygu y byddai cyn-gynghreiriaid yn gwrthwynebu ei gilydd, a chyn-wrthwynebwyr mewn grym gyda'i gilydd.

Ochr yn ochr â hynny, mae nifer o garfanau annibynnol cyfnewidiol yn tra-arglwyddiaethu dros wleidyddiaeth y Cyngor, ac mae'n ymddangos nad yw'r cynghreiriau hynny'n seiliedig ar lawer mwy na chyfleustra gwleidyddol. Ers i ni ymyrryd, mae dau grŵp newydd wedi'i greu, a mae'r hen un wedi'i ddiddymu,. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi ar y pwyllgor gwaith wedi'u dal gan nifer o wahanol aelodau dros y 18 mis diwethaf. Mae hefyd yn anodd weithiau dilyn trywydd y cynghreirio a'r ymgiprys o un wythnos i'r llall.

Byddai rhai'n dweud bod gwleidyddion yn griw cecrus o ran eu hanian, ac nad yw'r hyn yr ydym wedi'i weld yn ddim mwy na gwleidyddiaeth leol arferol. Nid wyf yn cytuno â hynny. Nid yw o unrhyw ddiddordeb i mi pwy sy'n arwain y cyngor, na phwy sydd ar y pwyllgor gwaith. Yr hyn yr wyf fi'n ei ddisgwyl, a'r hyn sy'n hanfodol er mwyn cael adferiad, yw sefydlogrwydd. Fel yr wyf wedi'i ddatgan yn glir droeon, rhaid i'r holl gynghorwyr ganolbwyntio eu hymdrechion ar weithio er budd yr ynys, a diwygio strwythurau, arferion a diwylliant y Cyngor er mwyn cyflawni hynny. Nid mater i arweinydd ac aelodau pwyllgor gwaith y Cyngor yn unig yw hyn - pwy bynnag sy'n llenwi'r swyddi hynny. Mae yna gydgyfrifoldeb ar yr aelodau i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu er lles pobl Ynys Môn.

Wrth reswm, mae gan unrhyw gorff democrataidd yr hawl i ddewis ei arweinydd, ac i gael gwared ar weinyddiaeth nad yw'n ei chefnogi. Ond mae'r ymdrechion parhaus i sicrhau mantais yn tanseilio'r adferiad ac yn llesteirio gwaith y Cyngor. Yr hyn sy'n peri siom ddirfawr i mi yw bod nifer o'r rhai sydd yn awr, yn ôl pob tebyg, yn rhan o'r datblygiadau diweddar wedi rhoi addewidion personol i fy Mwrdd Adfer na fyddent yn ansefydlogi'r weinyddiaeth bresennol, a hynny er mwyn sicrhau'r arferiad. Mae'n amlwg mai addewidion ffug oedd y rhain. Mae hyn i gyd yn awgrymu nad oes llawer o ddim wedi newid yn ystod cyfnod ein hymyrraeth, o leiaf ym meddyliau rhai cynghorwyr. Bydd yn siŵr o olygu bod pobl yn llai parod i weithio i'r Cyngor, neu i gydweithio ag ef, a hefyd i ystyried buddsoddi yn yr ynys. Ac nid yw'n rhoi unrhyw hyder i mi y bydd y Cyngor yn gallu mynd i'r afael â'r heriau difrifol, yn ariannol ac o ran darparu gwasanaethau, y mae pob awdurdod lleol yn eu hwynebu, mewn ffordd gydlynol a strategol. Yn gyffredinol, nid yw'n ymddangos bod rheolaeth gorfforaethol o fewn yr awdurdod yn gwella fel yr oeddwn i wedi gobeithio.

Ynghanol hyn i gyd, mae'n hawdd colli golwg ar staff y Cyngor. Maent yn parhau i weithio'n galed iawn, o dan amgylchiadau hynod anodd, i gyflawni er budd yr ynys, ac mae clod uchel yn ddyledus iddynt am sicrhau bod

gwasanaethau Ynys Môn yn parhau i fod yn dda ar y cyfan, ac weithiau'n rhagorol. Ond dim ond o ddydd i ddydd y gall hynny weithio; mae angen arweiniad wleidyddol gadarn a chyson ar hyd yn oed y swyddogion gorau er mwyn ymdrin â materion strategol megis rhesymoli ysgolion a diwygio gofal cymdeithasol. Nid yw'r staff yn derbyn yr arweiniad hwnnw, ac ni fyddant yn ei gael os na fydd y diwylliant gwleidyddol yn newid. I'r gwrthwyneb, maent yn teimlo'n hollol ddigalon a digymhelliad, a hynny'n ddealladwy, o weld yr hyn sy'n digwydd o fewn yr awdurdod ymhlith rhai aelodau etholedig. Mater o amser yw hi cyn i hyn ddechrau effeithio ar wasanaethau rheng flaen a'r gwelliannau angenrheidiol iddynt.

Ni allaf anwybyddu'r sefyllfa hon na chymryd arnaf y bydd popeth yn iawn yn y pen draw. Nod ein hymyriad hyd yma fu helpu'r Cyngor i'w adfer ei hun, a chyda chefnogaeth helaeth y Bwrdd Adfer a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mae peth cynnydd wedi'i wneud. Ond mae'n peri pryder difrifol i mi nad yw aelodau'r Cyngor yn dymuno gweld adferiad mewn rhai meysydd pwysig. Mae hynny'n fy arwain i gredu nad oes gan yr ymyriad presennol siawns resymol o lwyddo os caniateir i ymddygiad o'r fath barhau. Os felly, bydd yn rhaid i mi ystyried dull newydd a llymach o ymyrryd, er mwyn cyflymu'r adferiad a gwarchod yr ynys a'i dinasyddion.

Rwyf eisoes wedi clywed barn fy Mwrdd Adfer ar hyn. Maent yn cydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud ond nid ydynt yn gweld llawer o obaith o adferiad cynaliadwy. Mae hynny'n awgrymu bod angen cymryd camau pellach. Ni all y drefn sydd ohoni barhau, gan fod y diffyg sefydlogrwydd a llywodraethu corfforaethol da yn awgrymu'n gryf bod yna anallu i wneud penderfyniadau strategol cadarn, a gallai hynny effeithio'n gyflym ar y gwasanaethau a ddarperir o ddydd i ddydd. Nid wyf yn siŵr ynghylch pa fathau o gamau neu ymyriadau y dylid eu gweithredu ar hyn o bryd. Er bod gen i bwerau eang, mae eu goblygiadau posibl yn golygu bod angen bod yn ofalus iawn wrth eu gweithredu ac mae angen i mi sicrhau hefyd bod unrhyw gamau yr wyf yn penderfynu eu cymryd yn arwain at y gwelliannau sydd, yn ôl pob golwg, yn hanfodol. Mae hefyd yn bwysig sylweddoli bod problemau Ynys Môn yn ymwneud yn eu hanfod â gwerthoedd a diwylliant gwleidyddol - nid yw'r rhain yn faterion y gellir eu datrys yn rhwydd â thrawiad ysgrifbin y Gweinidog.

O ganlyniad, rwyf wedi penderfynu gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal ailarolygiad brys o'r Cyngor, gan wneud argymhellion os yw hynny'n briodol. Mae hyn yn rhan o'i gylch gwaith statudol, ac mae hefyd yn caniatáu iddo ystyried i ba raddau y mae'r argymhellion cynharach wedi'u rhoi ar waith o fewn y terfyn amser o 18 mis a osodwyd yn 2009. Ond ni ddylai'r Cyngor amau difrifoldeb ei sefyllfa; sefyllfa y mae'r Cyngor ei hun yn gyfrifol amdani i raddau helaeth. Byddaf yn ystyried argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn ofalus iawn wrth benderfynu pa gamau pellach i'w cymryd. Nid wyf am wneud sylw ar unrhyw ganlyniadau ar gyfer y Cyngor cyn i'r archwilydd gynhyrchu unrhyw adroddiad gan nad wyf am ragfarnu'r mater. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn ymwrthod â'r cyfleoedd i ddatrys ei broblemau, a'r gefnogaeth helaeth yr ydym ni, y Bwrdd Adfer a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i rhoi fel rhan o hynny, yna ni fydd ganddo unrhyw un i'w feio ond ef ei hun.

Byddaf yn gwneud datganiad pellach i'r Cynulliad unwaith y byddaf wedi derbyn canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol, ac wedi eu hystyried.

ATODIAD / ENCLOSURE 6